OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1241 (Cy. 133)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfuno a chynyddu nifer o ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru ym maes iechyd anifeiliaid, o fewn un offeryn statudol. Cesglir y ffioedd gan asiantaeth weithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sef yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AIALM). Maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae'r ffioedd yn rheoliad 4 ac Atodlen 1 yn daladwy mewn perthynas â gweithgareddau sy'n ofynnol o dan Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 ac yn unol â rhaglenni cenedlaethol rheoli salmonela ar gyfer dofednod. Mae rheoliad 4 yn diwygio Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Dofednod (Cymru) 2008 (O.S. 2008/524 (Cy.50)).

Mae'r ffioedd yn rheoliad 6 ac Atodlen 2 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at ddiben y cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy.252)).

Mae'r ffioedd yn rheoliad 7 ac Atodlen 3 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at y diben o gael semen buchol yn unol â Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1040 (Cy.110)), a ddiwygir gan reoliad 7.

Mae'r ffioedd yn rheoliad 8 ac Atodlen 4 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at y diben o gael semen moch, yn unol â Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (Cymru a Lloegr) 1964 (O.S. 1964/1172) a Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (CEE) 1992 (O.S. 1992/3161).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 1241 (W. 133)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make provision for consolidation and increase of several fees payable to the Welsh Ministers in the field of animal health into one statutory instrument. The fees are collected by an executive agency of the Department for Environment, Food and Rural Affairs known as the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency (AHVLA). They apply in relation to Wales.

The fees in regulation 4 and Schedule 1 are payable in relation to activities required under Regulation (EC) No 2160/2003 and in accordance with salmonella national control programmes for poultry. The Control of Salmonella in Poultry (Wales) Order 2008 (S.I. 2008/524 (W.50)) is amended by regulation 4.

The fees in regulation 6 and Schedule 2 are payable in relation to approvals for the purpose of the poultry health scheme established under Council Directive 2009/158/EC and the Trade in Animals and Related Products Regulations (Wales) 2011 (S.I. 2011/2379 (W.252)).

The fees in regulation 7 and Schedule 3 are payable in relation to approvals for the purpose of obtaining bovine semen in accordance with the Bovine Semen (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/1040 (W.110)), which are amended by regulation 7.

The fees in regulation 8 and Schedule 4 are payable in relation to approvals for the purpose of obtaining porcine semen in accordance with the Artificial Insemination of Pigs (England and Wales) Regulations 1964 (S.I. 1964/1172) and the Artificial Insemination of Pigs (EEC) Regulations 1992 (S.I. 1992/3161).

Mae'r ffioedd yn rheoliad 9 ac Atodlen 5 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at y diben o gasglu, cynhyrchu a throsglwyddo embryonau buchol, yn unol â Rheoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995 (O.S. 1995/2478).

Mae'r ffioedd yn rheoliad 10 ac Atodlen 6 yn daladwy mewn perthynas ag archwilio llwythi o anifeiliaid byw mewn arolygfeydd ffin, yn unol â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy.252)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu offerynnau ffioedd presennol mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid (rheoliad 11).

Fel yr esbonnir yn y Memorandwm Esboniadol, mae lefelau'r ffioedd y darperir ar eu cyfer yn yr offeryn hwn wedi eu pennu fel rhan o symudiad fesul cam tuag at ffioedd a fydd yn adennill y gost lawn. Cynyddir rhai ffioedd yn sylweddol o gymharu â'r ffioedd presennol, gan eu bod wedi aros yn ddigyfnewid ers llawer o flynyddoedd. Mae cymhariaeth fanwl rhwng y ffioedd presennol a'r ffioedd newydd wedi ei darparu mewn atodiad i'r Memorandwm Esboniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono drwy anfon e-bost at endemics@wales.gsi.gov.uk.

The fees in regulation 9 and Schedule 5 are payable in relation to approvals for the purpose of collection, production and transfer of bovine embryos in accordance with the Bovine Embryo (Collection, Production and Transfer) Regulations 1995 (S.I. 1995/2478).

The fees in regulation 10 and Schedule 6 are payable in relation to inspection of consignments of live animals at border inspection posts in accordance with the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/2379 (W.252)).

These Regulations revoke existing fee instruments in relation to animal health (regulation 11).

The fee levels provided for in this instrument form part of a phased move towards full cost recovery of fees as explained in the Explanatory Memorandum. Some fees are substantially increased from existing fees because they have remained unchanged for many years. A detailed comparison of the existing and new fees is provided in an annex to the Explanatory Memorandum.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained by emailing endemics@wales.gsi.gov.uk.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1241 (Cy. 133)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Mai 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *31 Mai 2013* |
| *Yn dod i rym* | *24 Mehefin 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at y dibenion o wneud Rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) ("Deddf 1972") mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at offerynnau UE yn y Rheoliadau hyn gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Yn unol ag adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**3**), mae'r Trysorlys yn cydsynio i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud.

Yn unol ag adran 10(3)(c) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(**4**), mae'r ffioedd perthnasol wedi eu cymeradwyo gan y Trysorlys.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(**1**) O.S. 2010/2690.

(**2**) 1972 p.68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51), a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7) a Rhan 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno.

(**3**) 1973 p.51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) 1984 p.40.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 1241 (W. 133)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2013

| | |
|---|---|
| *Made* | *29 May 2013* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *31 May 2013* |
| *Coming into force* | *24 June 2013* |

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of making Regulations under section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) ("the 1972 Act") in relation to the common agricultural policy of the European Union.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the 1972 Act and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to EU instruments in these Regulations to be construed as references to those instruments as amended from time to time.

In accordance with section 56(1) and (2) of the Finance Act 1973(**3**), the Treasury consent to the making of these Regulations.

In accordance with section 10(3)(c) of the Animal Health and Welfare Act 1984(**4**), the relevant fees have been approved by the Treasury.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by—

(**1**) S.I. 2010/2690.

(**2**) 1972 c.68; section 2(2) was amended by the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51), section 27(1)(a) and the European Union (Amendment) Act 2008 (c.7), section 3(3) and Part 1 of the Schedule.

(**3**) 1973 c.51. The Welsh Ministers may exercise this power by virtue of section 59(5) of the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**4**) 1984 c.40.

(a) adran 2(2) o Ddeddf 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2(**1**) i'r Ddeddf honno;

(b) adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**2**);

(c) adran 1 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**3**); a

(d) adran 10(3)(c) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(**4**).

## Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Mehefin 2013.

## Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "milfeddyg" ("*veterinary surgeon*") yw person a gofrestrwyd yn y gofrestr o filfeddygon a gedwir o dan adran 2 o Ddeddf Milfeddygon 1966(**5**); ac

ystyr "swyddog milfeddygol" ("*veterinary officer*") yw milfeddyg a gyflogir fel y cyfryw gan Weinidogion Cymru.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at—

(a) Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Tachwedd 2003, ar reoli salmonela a chyfryngau milheintiol penodedig eraill sy'n ymledu drwy fwyd(**6**),

(a) section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2(**1**) to, the 1972 Act;

(b) section 56(1) and (2) of the Finance Act 1973(**2**);

(c) section 1 of the Animal Health Act 1981(**3**); and

(d) section 10(3)(c) of the Animal Health and Welfare Act 1984(**4**).

## Title, application and commencement

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2013.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 24 June 2013.

## Interpretation

**2.**—(1) In these Regulations—

"veterinary officer" ("*swyddog milfeddygol*") means a veterinary surgeon employed as such by the Welsh Ministers; and

"veterinary surgeon" ("*milfeddyg*") means a person registered in the register of veterinary surgeons kept under section 2 of the Veterinary Surgeons Act 1966(**5**).

(2) In these Regulations a reference to—

(a) Regulation (EC) No 2160/2003 of the European Parliament and of the Council of 17 November 2003 on the control of salmonella and other specified food-borne zoonotic agents(**6**),

---

(**1**) Mewnosodwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

(**2**) 1973 p.51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 1 o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 2004/3044. Mae'r swyddogaethau hynny a oedd yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**4**) 1984 p.40; mae adran 10(8) yn diffinio'r "appropriate Minister" o ran Cymru at ddibenion adran 10 fel yr Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**5**) 1966 p.36. Diwygiwyd adran 2 gan erthygl 12 o O.S. 2003/2919 a pharagraff 1 o'r Atodlen i'r offeryn hwnnw, a chan erthygl 2 o O.S. 2008/1824 a pharagraff 2(a) a (b) o'r Atodlen i'r offeryn hwnnw.

(**6**) OJ Rhif L 325, 12.12.2003, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1086/2011 (OJ Rhif L 281, 28.10.2011, t.7).

(**1**) Paragraph 1A was inserted into Schedule 2 by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51).

(**2**) 1973 c.51. The Welsh Ministers may exercise this power by virtue of section 59(5) of the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) 1981 c.22. Functions of the Ministers under section 1 of the 1981 Act were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales, by virtue of S.I. 1999/672. Functions of the Secretary of State were transferred, so far as exercisable in relation Wales, to the National Assembly for Wales, by virtue of S.I. 2004/3044. Those functions, exercisable in relation to Wales by the National Assembly for Wales are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**4**) 1984 c.40; section 10(8) defines the "appropriate Minister" as meaning the Secretary of State in relation to Wales for the purposes of section 10. The functions of the Secretary of State, insofar as they are exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of S.I. 1999/672. Those functions are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**5**) 1966 c.36. Section 2 has been amended by S.I. 2003/2919, article 12, Schedule, paragraph 1 and S.I. 2008/1824, article 2, Schedule, paragraph 2(a) and (b).

(**6**) OJ No. L 325, 12.12.2003, p.1, as last amended by Commission Regulation (EU) No 1086/2011 (OJ No. L 281, 28.10.2011, p.7).

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 90/429/EEC sy'n gosod y gofynion o ran iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i fasnach o fewn y Gymuned mewn semen anifeiliaid domestig o'r rhywogaethau mochaidd, ac i fewnforion o'r semen hwnnw (**1**), neu

(c) Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC ar 30 Tachwedd 2009 ar amodau iechyd anifeiliaid, sy'n llywodraethu'r fasnach mewn dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned, a mewnforion dofednod ac wyau deor o drydydd gwledydd (**2**),

i'w ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

**Ad-dalu ffioedd**

**3.** Os caiff unrhyw gais y mae ffi yn daladwy amdano o dan neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn ei dynnu'n ôl cyn penderfynu'r cais, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu i'r ceisydd pa bynnag gyfran o unrhyw ffi a dalwyd mewn perthynas â'r cais hwnnw sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru, o ystyried unrhyw gostau rhesymol a dynnwyd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais.

**Y rhaglenni cenedlaethol rheoli salmonela (milheintiau): diwygio a ffioedd**

**4.**—(1) Mae Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Dofednod (Cymru) 2008(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli), yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniadau canlynol—

"ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 200/2010" ("*Commission Regulation (EU) No 200/2010*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 200/2010 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran targed yr Undeb ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau *Salmonella* mewn heidiau bridio llawn dwf o *Gallus gallus*(**4**);

ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 517/2011" ("*Commission Regulation (EU) No 517/2011*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 517/2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran targed yr Undeb ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau *Salmonella* penodol mewn ieir dodwy *Gallus gallus* ac yn

(**1**) OJ Rhif L 224, 18.8.1990, t.62, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 176/2012 (OJ Rhif L 61, 2.3.2012, t.1).

(**2**) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t.74, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/879/EU (OJ Rhif L 343, 23.12.2011, t.105).

(**3**) O.S. 2008/524 (Cy.50).

(**4**) OJ Rhif L 61, 11.3.2010, t.1, a ddiwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 517/2011 (OJ Rhif L 138, 26.5.2011, t.45).

(b) Council Directive 90/429/EEC laying down the animal health requirements applicable to intra-Community trade in and imports of semen of domestic animals of the porcine species(**1**), or

(c) Council Directive 2009/158/EC of 30 November 2009 on animal health conditions governing intra-Community trade in, and imports from third countries of, poultry and hatching eggs(**2**),

is to be construed as a reference to that instrument as amended from time to time.

**Refund of Fees**

**3.** If any application for which a fee is payable under or by virtue of these Regulations is withdrawn before determination of the application, the Welsh Ministers must refund to the applicant such proportion of any fee paid in respect of that application as the Welsh Ministers think fit, having regard to any reasonable costs incurred by the Welsh Ministers in connection with the application.

**Salmonella national control programmes (zoonoses): amendment and fees**

**4.**—(1) The Control of Salmonella in Poultry (Wales) Order 2008(**3**) is amended as follows.

(2) In article 2 (interpretation), in the appropriate place in the alphabetical order insert the following definitions—

"Commission Regulation (EU) No 200/2010" ("*Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 200/2010*") means Commission Regulation (EU) No 200/2010 implementing Regulation (EC) No 2160/2003 of the European Parliament and of the Council as regards a Union target for the reduction of the prevalence of Salmonella serotypes in adult breeding flocks of Gallus gallus(**4**);

"Commission Regulation (EU) No 517/2011" ("*Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 517/2011*") means Commission Regulation (EU) No 517/2011 implementing Regulation (EC) No 2160/2003 of the European Parliament and of the Council as regards a Union target for the reduction of the prevalence of certain *Salmonella* serotypes in

(**1**) OJ No. L 224, 18.8.1990, p.62, as last amended by Commission Implementing Regulation (EU) No 176/2012 (OJ No. L 61, 2.3.2012, p.1).

(**2**) OJ No. L 343, 22.12.2009, p.74, as last amended by Commission Implementing Decision 2011/879/EU (OJ No. L 343, 23.12.2011, p.105).

(**3**) S.I. 2008/524 (W.50).

(**4**) OJ No. L 61, 11.3.2010, p.1, amended by Commission Regulation (EU) No. 517/2011 (OJ No. L 138, 26.5.2011, p.45).

diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 a Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 200/2010(**1**);".

(3) Yn erthygl 3 (yr awdurdod cymwys), yn lle paragraffau (a) a (b) (ond nid yr "ac" ar y diwedd) rhodder—

"(a) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 200/2010;

(b) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 517/2011;".

(4) Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 8 (dull samplu yn ystod y cyfnod dodwy)—

(i) yn lle "Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005" rhodder "Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 200/2010", a

(ii) yn lle "Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006" rhodder "Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 517/2011"; a

(b) ym mharagraff 12 (dyletswyddau'r person sydd â gofal labordy)—

(i) yn is-baragraff (3)(a), yn lle "3.1.2 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005" rhodder "3.1.3 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 200/2010",

(ii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle "3.1.3" rhodder "3.1.4", a

(iii) yn is-baragraff (4)(a), yn lle "Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006" rhodder "Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 517/2011".

**5.**—(1) Mae Atodlen 1 yn pennu'r ffioedd sy'n daladwy am weithgareddau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â rheoli *Salmonella* yn unol â'r Rhaglen Reoli Genedlaethol(**2**) berthnasol, a sefydlwyd gan neu o dan Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**).

(2) Yn Atodlen 1—

(a) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal o ddaliad dofednod, am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 1, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw;

(b) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy, am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 2, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw; ac

(**1**) OJ Rhif L 138, 26.5.2011, t.45.

(**2**) Mae rhaglenni cenedlaethol yn bodoli ar gyfer rheoli salmonela mewn ieir dodwy sy'n cynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl, ieir bridio, brwyliaid a thyrcwn; cynlluniwyd y rhaglenni ar gyfer gostwng nifer yr achosion o wahanol fathau o salmonela sy'n arwyddocaol o ran iechyd y cyhoedd, yn unol â thargedau'r UE.

(**3**) OJ Rhif L 325, 12.12.2003, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1086/2011 (OJ Rhif L 281, 28.10.2011, t.7).

laying hens of *Gallus gallus* and amending Regulation (EC) No 2160/2003 and Commission Regulation (EU) No 200/2010(**1**);.

(3) In article 3 (competent authority), for paragraphs (a) and (b) (but not the "and" at the end) substitute—

"(a) Commission Regulation (EU) No 200/2010;

(b) Commission Regulation (EU) No 517/2011;".

(4) In the Schedule—

(a) in paragraph 8 (method of sampling during the laying period)—

(i) for "Commission Regulation (EC) No 1003/2005" substitute "Commission Regulation (EU) No 200/2010", and

(ii) for "Commission Regulation (EC) No 1168/2006" substitute "Commission Regulation (EU) No 517/2011"; and

(b) in paragraph 12 (duties on the person in charge of a laboratory)—

(i) in sub-paragraph (3)(a), for "3.1.2 of the Annex to Commission Regulation (EC) No 1003/2005" substitute "3.1.3 of the Annex to Commission Regulation (EU) No 200/2010",

(ii) in sub-paragraph (3)(b), for "3.1.3" substitute "3.1.4", and

(iii) in sub-paragraph (4)(a), for "Commission Regulation (EC) No 1168/2006" substitute "Commission Regulation (EU) No 517/2011".

**5.**—(1) Schedule 1 sets out the fees payable for activities conducted by the Welsh Ministers in relation to the control of *Salmonella* in accordance with the relevant National Control Programme(16) established by or under Regulation (EC) No 2160/2003 of the European Parliament and of the Council(**2**).

(2) In Schedule 1—

(a) the fees payable by the person in charge of a poultry holding for the activities specified in column 1 of Table 1 are specified in the corresponding entries in column 2 of that Table;

(b) the fees payable by the operator of a laboratory for activities specified in column 1 of Table 2 are specified in the corresponding entries in column 2 of that Table; and

(**1**) OJ No. L 138, 26.5.2011, p.45.

(**2**) There are salmonella national control programmes for laying chickens producing eggs for human consumption, breeding chickens, broiler chickens and turkeys that are designed to reduce the prevalence of different types of salmonella that are of public health significance in line with EU targets.

(**3**) OJ No. L 325, 12.12.2003, p.1, as last amended by Commission Regulation (EU) No 1086/2011 (OJ No. L 281, 28.10.2011, p.7).

(c) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal o heidiau dofednod, am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 3, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

**Y Cynllun Iechyd Dofednod: ffioedd**

**6.** Mae ffioedd wedi eu pennu fel a ganlyn yn Atodlen 2, am weithgareddau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod(**1**) a sefydlwyd o dan Erthyglau 2 a 6 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC ac Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno ac a weithredwyd gan baragraff 4 o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**)—

(a) yn Nhabl 1, mae'r ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr, am y gweithgareddau cymeradwyo a chofrestru a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw; a

(b) yn Nhabl 2, mae'r ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy, am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

**Semen buchol: ffioedd**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008(**3**) ("Rheoliadau 2008") wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn lle rheoliad 41 rhodder—

"**41.** Mae'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru fel y darperir gan reoliad 7(4) o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013."

(3) Hepgorer rheoliad 42.

(4) Mae'r ffioedd a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn daladwy am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno; ac y mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen honno ac a ddefnyddir hefyd yn Rheoliadau 2008 yr un ystyron ag yn Rheoliadau 2008.

(c) the fees payable by the person in charge of poultry flocks for the activities specified in column 1 of Table 3 are specified in the corresponding entries in column 2 of that Table.

**Poultry Health Scheme: fees**

**6.** The following fees are specified in Schedule 2 for activities conducted by the Welsh Ministers in relation to the poultry health scheme(**1**) established under Articles 2 and 6 of, and Annex II to, Council Directive 2009/158/EC and implemented by paragraph 4 of Schedule 2 to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011(**2**)—

(a) Table 1 sets out the fees payable by applicants for approval and registration activities specified in column 1 of that Table in the corresponding entries in column 2 of that Table; and

(b) Table 2 sets out the fees payable by the operator of a laboratory for activities specified in column 1 of that Table in the corresponding entries in column 2 of that Table.

**Bovine semen: fees**

**7.**—(1) The Bovine Semen (Wales) Regulations 2008(**3**) ("the 2008 Regulations") are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) For regulation 41 substitute—

"**41.** The fees payable to the Welsh Ministers are as provided by regulation 7(4) of the Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2013."

(3) Omit regulation 42.

(4) The fees specified in column 2 of Schedule 3 to these Regulations are payable for the activities specified in column 1 of that Schedule and the words and expressions used in that Schedule and the 2008 Regulations have the same meanings as in the 2008 Regulations.

(**1**) Mae'r cynllun iechyd dofednod yn cynnig system gofrestru a chymeradwyo sy'n galluogi sefydliadau i wirio'u cydymffurfiaeth â deddfwriaeth UE, fel eu bod yn gymwys wedyn i allforio mwy nag 20 o gywion neu wyau deor i Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Yn ychwanegol, mae'n darparu ar gyfer cynnal profion ar hyfedredd y labordai sy'n profi samplau ar ran aelodau'r cynllun iechyd dofednod.

(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy.252).

(**3**) O.S. 2008/1040 (Cy.110).

(**1**) The poultry health scheme offers a system of registration and approval enabling establishments to verify compliance with EU legislation so that they are then eligible to export over 20 chicks or hatching eggs to other EU Member States. Additionally it provides for proficiency tests to be carried out on the laboratories that test samples on behalf of poultry health scheme members.

(**2**) S.I. 2011/2379 (W.252).

(**3**) S.I. 2008/1040 (W.110).

**Semen mochaidd: ffioedd**

**8.**—(1) Mae Atodlen 4 yn pennu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â dyroddi trwyddedau neu gymeradwyaethau a chynnal profion ac archwiliadau o dan—

(a) Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (Cymru a Lloegr) 1964(**1**) ("Rheoliadau 1964"); neu

(b) Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (CEE) 1992(**2**) ("Rheoliadau 1992").

(2) Mae'r ffioedd sy'n daladwy gan geisydd am drwydded neu'r gymeradwyaeth ar gyfer gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl yn Atodlen 4, neu gan ddeiliad y cyfryw drwydded neu gymeradwyaeth, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

(3) Yn Atodlen 4 ystyr "canolfan ffrwythloni artiffisial" ("*artificial insemination centre*") yw mangre—

(a) y mae trwydded mewn grym mewn perthynas â hi, o dan reoliad 4(1) o Reoliadau 1964, neu

(b) sydd wedi ei chymeradwyo o dan reoliad 2(2) neu (3) o Reoliadau 1992.

**Embryonau buchol (casglu, cynhyrchu a throsglwyddo): ffioedd**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn ac Atodlen 5 yn pennu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am weithgareddau mewn perthynas â chais am gymeradwyaeth neu ddeiliad cymeradwyaeth o dan Reoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995(**3**) ("Rheoliadau 1995").

(2) Yn Atodlen 5, mae'r ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr am gymeradwyaeth, neu gan ddeiliaid cymeradwyaeth, o dan Reoliadau 1995 am weithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

**Gwirio llwythi o anifeiliaid byw mewn arolygfeydd ffin: ffioedd**

**10.**—(1) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheoliad hwn ac yn Atodlen 6 yn daladwy pan gynhelir archwiliadau o lwythi o anifeiliaid byw o drydedd wlad mewn arolygfeydd ffin, yn unol â rheoliad 15 (gweithdrefn wrth fewnforio) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**4**).

(**1**) O.S. 1964/1172, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1992/3161.

(**3**) O.S. 1995/2478, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2011/2379 (Cy.252).

**Porcine semen: fees**

**8.**—(1) Schedule 4 sets out the fees payable to the Welsh Ministers in connection with the issue of licences or approvals and tests and examinations carried out under—

(a) the Artificial Insemination of Pigs (England and Wales) Regulations 1964(**1**) ("the 1964 Regulations"); or

(b) the Artificial Insemination of Pigs (EEC) Regulations 1992(**2**) ("the 1992 Regulations").

(2) The fees payable by the applicant or holder of the licence or approval for activities specified in column 1 of the Table in Schedule 4 are specified in the corresponding entries in column 2 of that Table.

(3) In Schedule 4 "artificial insemination centre" ("*canolfan ffrwythloni artiffisial*") means premises—

(a) in respect of which a licence is in force under regulation 4(1) of the 1964 Regulations, or

(b) which have been approved under regulation 2(2) or (3) of the 1992 Regulations.

**Bovine embryo (collection, production and transfer): fees**

**9.**—(1) This regulation and Schedule 5 set out the fees payable to the Welsh Ministers for activities in relation to an application for an approval or a holder of an approval under the Bovine Embryo (Collection, Production and Transfer) Regulations 1995(**3**) ("the 1995 Regulations").

(2) In Schedule 5, the fees payable by applicants for, or holders of, approvals under the 1995 Regulations for activities specified in column 1 of the Table are specified in the corresponding entries in column 2 of that Table.

**Checking consignments of live animals at border inspection posts: fees**

**10.**—(1) The fees specified in this regulation and Schedule 6 are payable where inspections are carried out at border inspection posts of consignments of live animals from a third country in accordance with regulation 15 (procedure on importation) of the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011(**4**).

(**1**) S.I. 1964/1172, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**2**) S.I. 1992/3161.

(**3**) S.I. 1995/2478 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**4**) S.I. 2011/2379 (W.252).

(2) Pennir y ffioedd sy'n daladwy am archwilio llwyth o anifeiliaid byw, a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl yn Atodlen 6, yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys os ymgymerir ag archwilio unrhyw anifail byw mewn arolygfa ffin (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol)—

(a) yn ystod penwythnos;

(b) ar ôl 17:00 o'r gloch ond cyn 08:30 o'r gloch ar ddiwrnod gwaith; neu

(c) yn ystod gŵyl gyhoeddus.

(4) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, mae ffi o £80 yn daladwy am bob cyflenwad sy'n ddarostyngedig i'w archwilio (yn ychwanegol at unrhyw ffi sy'n daladwy o dan Atodlen 6).

(5) Yn y rheoliad hwn ac Atodlen 6—

(a) ystyr "arolygfa ffin" ("*border inspection post*") yw porthladd neu faes awyr a gymeradwywyd fel y cyfryw gan y Comisiwn Ewropeaidd(**1**);

(b) ystyr "llwyth" ("*consignment*") yw casgliad o anifeiliaid o'r un rhywogaeth, sydd wedi eu cynnwys o dan yr un dystysgrif neu ddogfen filfeddygol;

(c) ystyr "cyflenwad" ("*load*") yw un neu ragor o lwythi o anifeiliaid sy'n tarddu o'r un wlad, sydd wedi cyrraedd ar yr un cyfleuster cludo, ac wedi eu cyflwyno ar gyfer eu gwirio yn yr arolygfa ffin ar yr un pryd, gan berson sy'n gyfrifol am eu mewnforio;

(d) ystyr "gŵyl gyhoeddus" ("*public holiday*") yw Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**2**); ac

(e) ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw gwlad ac eithrio Aelod-wladwriaeth.

**Dirymiadau**

**11.** Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial (Gwartheg a Moch) (Ffioedd) 1987(**3**);

(b) Rheoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) (Ffioedd) 1995(**4**);

(**1**) Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi rhestrau o'r arolygfeydd ffin yn rheolaidd. Pennir y rhestr o arolygfeydd ffin cymeradwy ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2009/821/EC (OJ Rhif L 296, 12.11.2009, t.1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/762/EU (OJ Rhif L 336, 8.12.2012, t.94).

(**2**) 1971 p.80. Gwnaed diwygiadau i'r Ddeddf hon, nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 1987/390.

(**4**) O.S. 1995/2479.

(2) The fees payable in respect of the inspection of a consignment of live animals specified in column 1 of the Table in Schedule 6 are specified in the corresponding entry in column 2 of that Table.

(3) Paragraph (4) applies where the inspection of any live animal at a border inspection post is undertaken (whether in whole or in part)—

(a) during a weekend;

(b) after 17:00 hours but before 08:30 hours on a weekday; or

(c) during a public holiday.

(4) Where this paragraph applies, a fee of £80 is payable for every load subject to inspection (in addition to any fee payable under Schedule 6).

(5) In this regulation and Schedule 6—

(a) "border inspection post" ("*arolygfa ffin*") means a port or airport approved as such by the European Commission(**1**);

(b) "consignment" ("*llwyth*") means a quantity of animals of the same species, covered by the same veterinary certificate or document;

(c) "load" ("*cyflenwad*") means one or more consignments of animals from the same country of origin that have arrived on the same means of transport and presented by a person responsible for their importation for checking at the border inspection post at the same time;

(d) "public holiday" ("*gŵyl gyhoeddus*") means Christmas Day, Good Friday or a bank holiday in Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(**2**); and

(e) "third country" ("*trydedd wlad*") means a country other than a member State.

**Revocations**

**11.** The following are revoked—

(a) the Artificial Insemination (Cattle and Pigs) (Fees) Regulations 1987(**3**);

(b) the Bovine Embryo (Collection, Production and Transfer) (Fees) Regulations 1995(**4**);

(**1**) The European Commission periodically publishes lists of border inspection posts. The list of approved border inspection posts is laid down in Commission Decision 2009/821/EC (OJ No. L 296, 12.11.2009, p.1) as last amended by Commission Implementing Decision 2012/762/EU (OJ No. L 336, 8.12.2012, p.94).

(**2**) 1971 c.80. There are amendments to this Act which are not relevant to these Regulations.

(**3**) S.I. 1987/390.

(**4**) S.I. 1995/2479.

(c) Rheoliadau Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Ffioedd) 1997(**1**);

(d) Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008(**2**); ac

(e) Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011(**3**).

(c) the Animals (Third Country Imports) (Charges) Regulations 1997(**1**);

(d) the Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) Regulations 2008(**2**); and

(e) the Poultry Health Scheme (Fees) (Wales) Regulations 2011(**3**).

*Alun Davies*

Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

Minister for Natural Resources and Food, one of the Welsh Ministers

29 Mai 2013

29 May 2013

Rydym yn cydsynio

We consent

*Mark Lancaster*
20 Mai 2013

*Mark Lancaster*
20 May 2013

*Robert Goodwill*
20 Mai 2013

*Robert Goodwill*
20 May 2013

Dau o Arglwyddi Gomisiynwyr Trysorlys Ei Mawrhydi

Two of the Lords Commissioners of Her Majesty's Treasury

(**1**) O.S. 1997/639.

(**2**) O.S. 2008/2716 (Cy.245).

(**3**) O.S. 2011/2378 (Cy.251).

(**1**) S.I. 1997/639.

(**2**) S.I. 2008/2716 (W.245).

(**3**) S.I. 2011/2378 (W.251).

## ATODLEN 1

Rheoliad 5

# Y rhaglenni cenedlaethol rheoli salmonela (milheintiau): ffioedd

**Tabl 1**

| **Ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal o ddaliad ieir neu dyrcwn, y mae sampl swyddogol wedi ei gymryd ohono, ei brosesu a'i archwilio** | |
|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
| Amser a dreuliwyd yn cymryd sampl rheoli swyddogol i'w archwilio mewn labordy (yn ychwanegol at y ffioedd a bennir isod) | 23 am bob hanner awr, neu ran o hanner awr, a dreuliwyd |
| Cymryd sampl rheoli swyddogol o haid o ieir dodwy | 60 |
| Cymryd sampl rheoli swyddogol o haid o ieir bridio | 96 |
| Cymryd sampl rheoli swyddogol o haid o ieir bwyta (brwyliaid) | 89 |
| Cymryd sampl rheoli swyddogol o heidiau o dyrcwn pesgi a bridio | 87 |
| Archwilio sampl rheoli swyddogol mewn labordy | 15 am bob sampl a archwilir |

**Tabl 2**

| **Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy** | | |
|---|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* | |
| Prosesu cais am gymeradwyaeth ddechreuol i labordy, neu am adnewyddiad blynyddol o gymeradwyaeth labordy | 43 | |
| Cynnal archwiliadau a sicrwydd ansawdd, yn seiliedig ar nifer y profion y cymeradwywyd y labordy ar eu cyfer | un prawf | 642 |
| | dau brawf | 661 |
| | tri phrawf | 681 |
| | pedwar prawf | 700 |
| Cynnal profion cydweithredol ar gyfer salmonela, fel sy'n ofynnol ar gyfer cael a chadw cymeradwyaeth fel labordy profi | 37 y prawf | |

## SCHEDULE 1

Regulation 5

# Salmonella national control programmes (zoonoses): fees

**Table 1**

| **Fees payable by the person in charge of a chicken or turkey holding from which an official sample is taken, processed and examined** | |
|---|---|
| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
| Time spent in obtaining an official control sample for examination in a laboratory (in addition to the fees specified below) | 23 per half hour or part half hour spent |
| Taking an official control sample from a chicken laying flock | 60 |
| Taking an official control sample from a chicken breeding flock | 96 |
| Taking an official control sample from a chicken broiler flock | 89 |
| Taking an official control sample from turkey fattening and breeding flocks | 87 |
| Examination of an official control sample in a laboratory | 15 per sample examined |

**Table 2**

| **Fees payable by the operator of a laboratory** | | |
|---|---|---|
| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* | |
| Processing an application for an initial laboratory approval or an annual renewal of laboratory approval | 43 | |
| Conducting inspections and quality assurance based upon the number of tests for which the laboratory is approved | one test | 642 |
| | two tests | 661 |
| | three tests | 681 |
| | four tests | 700 |
| Conducting collaborative testing for salmonella as required to obtain and maintain approval as a testing laboratory | 37 per test | |

**Tabl 3**

| **Ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal o heidiau dofednod, am gynnal profion o dan bwynt 4(b) o Ran D o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 2160/2003** | |
|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
| Cynnal profion ar saith o samplau llwch a charthion a gymerir o bob haid | 15 am bob sampl a brofir |
| Samplu a chynnal profion bacteriolegol ar gaeca ac wyffosydd 300 o adar o bob haid | 3,560 |
| Samplu a chynnal profion bacteriolegol ar blisgyn a chynnwys 4,000 o wyau o bob haid | 2,310 |

**Table 3**

| **Fees payable by the person in charge of poultry flocks for conducting tests under point 4(b) of Part D of Annex II of Regulation (EC) No 2160/2003** | |
|---|---|
| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
| Conducting tests on seven dust and faecal samples taken from each flock | 15 per sample tested |
| Conducting bacteriological sampling and testing of the caeca and oviducts of 300 birds from each flock | 3,560 |
| Conducting bacteriological sampling and testing of the shell and the content of 4,000 eggs from each flock | 2,310 |

ATODLEN 2

Rheoliad 6

## Y cynllun iechyd dofednod: ffioedd

**Tabl 1**

| **Ffioedd am gofrestru a chymeradwyo sefydliad at ddibenion y cynllun iechyd dofednod** | |
|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn cyflawni'r gweithgareddau trwyddedu neu gymeradwyo sydd yn y Tabl hwn (y "ffi amser" yn y Tabl hwn), yn ychwanegol at y ffioedd a restrir isod, oni phennir fel arall yng ngholofn 2 nad yw'r ffi amser hon yn gymwys | 23 am bob hanner awr, neu ran o hanner awr, a dreuliwyd |
| Cofrestriad blynyddol fel aelod o'r cynllun iechyd dofednod ("aelod o'r cynllun" yn y Tabl hwn) | 61 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) |
| Cymeradwyaeth blwyddyn gyntaf ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun | 210 |
| Cymeradwyaeth blwyddyn gyntaf ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa aelod o'r cynllun, ar un safle, pan wneir yr archwiliad gan swyddog milfeddygol | 233 |
| Ailgymeradwyaeth flynyddol ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, pan wneir yr archwiliad gan filfeddyg nad yw'n swyddog milfeddygol | 74 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) |
| Ailgymeradwyaeth flynyddol ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa aelod o'r cynllun, ar un safle, pan wneir yr archwiliad gan filfeddyg nad yw'n swyddog milfeddygol | 78 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) |
| Ailgymeradwyaeth flynyddol ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, pan gyflawnir yr archwiliad gan swyddog milfeddygol | 178 |

SCHEDULE 2

Regulation 6

## Poultry health scheme: fees

**Table 1**

| **Fees for registration and approval of an establishment for the purposes of the poultry health scheme** | |
|---|---|
| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
| Time spent by a veterinary officer carrying out the licensing or approval activities in this Table (in this Table, the "time fee"), in addition to the fees listed below, unless otherwise specified in column 2 that this time fee does not apply | 23 per half hour or part half hour spent |
| Annual registration as a poultry health scheme member (in this Table a "scheme member") | 61 (time fee does not apply) |
| Approval for first year approval of scheme member's flock or hatchery | 210 |
| Approval for first year approval of a scheme member's combined flock and hatchery on one site where the inspection is carried out by a veterinary officer | 233 |
| Annual re-approval of a scheme member's flock or hatchery, where the inspection is carried out by a veterinary surgeon who is not a veterinary officer | 74 (time fee does not apply) |
| Annual re-approval of a scheme member's combined flock and hatchery on one site, where the inspection is carried out by a veterinary surgeon who is not a veterinary officer | 78 (time fee does not apply) |
| Annual re-approval of a scheme member's flock or hatchery, where inspection carried out by a veterinary officer | 178 |

| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
|---|---|
| Ailgymeradwyaeth flynyddol ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa aelod o'r cynllun, ar un safle, pan gyflawnir yr archwiliad gan swyddog milfeddygol | 183 |

| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
|---|---|
| Annual re-approval of a scheme member's combined flock and hatchery on one site, where inspection carried out by a veterinary officer | 183 |

**Tabl 2**

| **Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy mewn perthynas â chymeradwyo at ddiben y cynllun iechyd dofednod** | |
|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
| Prosesu cais am gymeradwyaeth ddechreuol i labordy neu adnewyddiad blynyddol o gymeradwyaeth labordy | 43 |
| Prawf hyfedredd mewn perthynas â bacterioleg *Salmonella* (*pullorum, gallinarum* ac *arizonae*) | 131 y prawf |
| Prawf hyfedredd mewn perthynas â seroleg *Salmonella* (*pullorum* a *gallinarum*) | 336 y prawf |
| Prawf hyfedredd mewn perthynas â seroleg *Mycoplasma* mewn ieir (*gallisepticum*) | 336 y prawf |
| Prawf hyfedredd mewn perthynas â meithrin *Mycoplasma* (*gallisepticum* a *meleagridis*) | 281 y prawf |
| Prawf hyfedredd mewn perthynas â seroleg *Mycoplasma* mewn tyrcwn (*gallisepticum* a *meleagridis*) | 336 y prawf |

**Table 2**

| **Fees payable by the operator of a laboratory in relation to approval for the purpose of the poultry health scheme** | |
|---|---|
| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
| Processing an application for an initial laboratory approval or an annual renewal of a laboratory approval | 43 |
| Proficiency test in respect of *Salmonella* bacteriology (*pullorum, gallinarum* and *arizonae*) | 131 per test |
| Proficiency test in respect of *Salmonella* serology (*pullorum* and *gallinarum*) | 336 per test |
| Proficiency test in respect of *Mycoplasma* chicken serology (*gallisepticum*) | 336 per test |
| Proficiency test in respect of *Mycoplasma* culture (*gallisepticum* and *meleagridis*) | 281 per test |
| Proficiency test in respect of *Mycoplasma* turkey serology (*gallisepticum* and *meleagridis*) | 336 per test |

ATODLEN 3

Rheoliad 7(4)

## Semen buchol: ffioedd

| **Ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr a gweithredwyr o dan Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008")** | | |
|---|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* | |
| Amser a dreuliwyd yn cyflawni'r gweithgareddau trwyddedu neu gymeradwyo yn y Tabl hwn (yn ychwanegol at bob un o'r ffioedd a restrir isod) | swyddog nad yw'n swyddog milfeddygol | 12 am bob hanner awr neu ran o hanner awr a dreuliwyd |
| | swyddog milfeddygol | 23 am bob hanner awr neu ran o hanner awr a dreuliwyd |
| Ystyried cais o dan reoliadau 7 a 10 o Reoliadau 2008 am gymeradwyo anifail buchol ar gyfer ei ddefnyddio mewn canolfannau casglu domestig neu mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu | 38 | |
| Ystyried cais o dan reoliad 7 o Reoliadau 2008 am gymeradwyo anifail buchol ar gyfer ei ddefnyddio mewn canolfan gasglu UE | Anifail buchol o dan 6 mis oed | 187 |
| | Anifail buchol dros 6 mis oed ac mewn grŵp o'r un rhyw | 187 |
| | Anifail buchol dros 6 mis oed ac mewn grŵp cymysg o ran rhyw | 368 |
| Ystyried cais am drwydded i weithredu canolfan gwarantin UE o dan reoliad 4 o Reoliadau 2008 | 114 | |
| Ystyried cais am drwydded i weithredu canolfan gasglu UE o dan reoliad 4 o Reoliadau 2008 | 146 | |

SCHEDULE 3

Regulation 7(4)

## Bovine semen: fees

| **Fees payable by applicants and operators under the Bovine Semen (Wales) Regulations 2008 ("the 2008 Regulations")** | | |
|---|---|---|
| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* | |
| Time spent carrying out the licensing or approval activities in this Table (in addition to each of the fees listed below) | officer who is not a veterinary officer | 12 per half hour or part half hour spent |
| | veterinary officer | 23 per half hour or part half hour spent |
| Considering an application under regulations 7 and 10 of the 2008 Regulations for approval of a bovine animal for use in domestic collection centres or at unlicensed premises | 38 | |
| Considering an application under regulation 7 of the 2008 Regulations for approval of a bovine animal for use in an EU collection centre | Bovine animal aged under 6 months old | 187 |
| | Bovine animal aged over 6 months old and in a same sex group | 187 |
| | Bovine animal aged over 6 months old and in a mixed sex group | 368 |
| Considering an application for a licence to operate an EU quarantine centre under regulation 4 of the 2008 Regulations | 114 | |
| Considering an application for a licence to operate an EU collection centre under regulation 4 of the 2008 Regulations | 146 | |

| *Colo`fn 1 Gweithgaredd* | *Colofn 2 Ffi (£)* |
|---|---|
| Ystyried cais am drwydded i weithredu canolfan storio UE o dan reoliad 4 o Reoliadau 2008 | 63 |
| Cynnal archwiliad o ganolfan semen buchol o dan reoliad 40 o Reoliadau 2008 | 14 |

| *Column 1 Activity* | *Column 2 Fee (£)* |
|---|---|
| Considering an application for a licence to operate an EU storage centre under regulation 4 of the 2008 Regulations | 63 |
| Conducting an examination of a bovine semen centre under regulation 40 of the 2008 Regulations | 14 |

## ATODLEN 4

Rheoliad 8

# Semen mochaidd: ffioedd

| **Ffioedd sy'n daladwy o dan Reoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (Cymru a Lloegr) 1964 ("Rheoliadau 1964") a Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (CEE)1992** | | |
|---|---|---|
| *Colofn 1 Gweithgaredd* | *Colofn 2 Ffi (£)* | |
| Amser a dreuliwyd yn cyflawni'r gweithgareddau trwyddedu neu gymeradwyo sydd yn y Tabl hwn (y "ffi amser" yn y Tabl hwn), yn ychwanegol at bob un o'r ffioedd a restrir isod, oni phennir yng ngholofn 2 nad yw'r ffi amser hon yn gymwys | swyddog nad yw'n swyddog milfeddygol | 12 am bob hanner awr neu ran o hanner awr a dreuliwyd |
| | swyddog milfeddygol | 23 am bob hanner awr neu ran o hanner awr a dreuliwyd |
| ***Cais am gymeradwyo baeddod i ddarparu semen at ddibenion ffrwythloni artiffisial*** | | |
| Ystyried cais am gymeradwyo baedd o dan reoliad 2(1) o Reoliadau 1964 at y diben o gasglu semen na fydd yn destun masnachu o fewn yr UE | 92 | |
| Ystyried cais am gymeradwyo pob baedd ychwanegol a archwilir yr un pryd | 19 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) | |
| ***Profi baeddod yn rheolaidd*** | | |
| Profion rheolaidd gorfodol ar faeddod yn unol â pharagraff 1 o Bennod II o Atodiad B i Gyfarwyddeb y Cyngor 90/429/EEC mewn canolfannau ffrwythloni artiffisial y gall semen ohonynt fod yn destun masnachu o fewn yr UE | hyd at uchafswm o 10 baedd | 201 |
| | am bob baedd ychwanegol a brofir yn y fangre | 26 |
| Profion rheolaidd ar faeddod mewn canolfannau ffrwythloni artiffisial na fydd semen ohonynt yn destun masnachu o fewn yr UE | hyd at uchafswm o 10 baedd | 140 |
| | am bob baedd ychwanegol a brofir yn y fangre | 19 |
| ***Gweithredu canolfan ffrwythloni artiffisial*** | | |
| Ystyried cais gan weithredwr am drwydded neu gymeradwyaeth ar gyfer canolfan ffrwythloni artiffisial | 29 | |

## SCHEDULE 4

Regulation 8

# Porcine semen: fees

| **Fees payable under the Artificial Insemination of Pigs (England and Wales) Regulations 1964 ("the 1964 Regulations") and the Artificial Insemination of Pigs (EEC) Regulations 1992** | | |
|---|---|---|
| *Column 1 Activity* | *Column 2 Fee (£)* | |
| Time spent carrying out the licensing or approval activities in this Table (in this Table the "time fee"), in addition to each of the fees listed below, unless specified in column 2 that this time fee is not applicable | officer who is not a veterinary officer | 12 per half hour or part half hour spent |
| | veterinary officer | 23 per half hour or part half hour spent |
| ***Application for approval of boars to provide semen for the purpose of artificial insemination*** | | |
| Considering an application for the approval of a boar under regulation 2(1) of the 1964 Regulations for the purpose of the collection of semen which will not be subject to intra-EU trade | 92 | |
| Considering an application for the approval of each additional boar examined at the same time | 19 (time fee does not apply) | |
| ***Routine testing of boars*** | | |
| Compulsory routine testing of boars in accordance with Annex B, Chapter II, paragraph 1 of Council Directive 90/429/EEC at an artificial insemination centre from which semen may be subject to intra-EU trade | up to a maximum of 10 boars | 201 |
| | each additional boar tested on the premises | 26 |
| Routine testing of boars at an artificial insemination centre from which semen is not subject to intra-EU trade | up to a maximum of 10 boars | 140 |
| | each additional boar tested on the premises | 19 |
| ***Operation of an artificial insemination centre*** | | |
| Considering an application from an operator for an artificial insemination centre licence or approval | 29 | |

| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
|---|---|
| ***Gweithredu canolfan ffrwythloni artiffisial*** | |
| Ystyried cais am gymeradwyo newid mewn mangre drwyddedig (yn unol ag amodau a atodir i'r drwydded) | 29 |
| Archwiliad rheolaidd o ganolfan ffrwythloni artiffisial | 9 |

| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
|---|---|
| ***Operation of an artificial insemination centre*** | |
| Considering an application for approval of an alteration to licensed premises (in accordance with conditions attached to the licence) | 29 |
| Routine examination of an artificial insemination centre | 9 |

## ATODLEN 5

Rheoliad 9

# Embryonau buchol (casglu, cynhyrchu a throsglwyddo): ffioedd

| **Ffioedd sy'n daladwy o dan Reoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995 ("Rheoliadau 1995")** | |
|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
| Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn cyflawni archwiliadau a gwiriadau (yn ychwanegol at y ffioedd sylfaenol a restrir yn y Tabl hwn pan fo'n ofynnol archwilio'r cyfleusterau perthnasol neu'r fangre berthnasol, neu wirio'r cofnodion) | 23 am bob hanner awr, neu ran o hanner awr, a dreuliwyd |
| Ystyried cais am gymeradwyo un tîm casglu neu gynhyrchu embryonau buchol, pan fo'n cynnwys archwilio un labordy | 131 |
| Ystyried cais gan yr un ceisydd am gymeradwyo pob labordy neu storfa ychwanegol, pan fo pellter y labordy hwnnw neu'r storfa honno oddi wrth y timau embryonau eraill a archwiliwyd ar gyfer eu cymeradwyo yn fwy nag 8 cilometr | 86 |
| Ystyried cais gan yr un ceisydd am gymeradwyo labordy neu storfa ychwanegol, pan wneir yr archwiliad ar yr un diwrnod a phan fo pellter y labordy neu'r storfa oddi wrth y timau embryonau eraill a archwiliwyd ar gyfer eu cymeradwyo yn 8 cilometr neu'n llai | 27 |
| Ystyried cais am gymeradwyo:<br>— tîm trosglwyddo embryonau buchol; neu<br>— storfa o dan reoliad 13;<br>— storfa o dan reoliad 16; neu<br>— storfa a'i goruchwyliwr o dan reoliadau 16 a 19, o Reoliadau 1995 | 60 |

## SCHEDULE 5

Regulation 9

# Bovine embryo (collection, production and transfer): fees

| **Fees payable under the Bovine Embryo (Collection, Production and Transfer) Regulations 1995 ("the 1995 Regulations")** | |
|---|---|
| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
| Time spent by a veterinary officer when carrying out inspections and checks (in addition to the basic fees listed in this Table where the relevant facilities or premises require inspection or records require checking) | 23 per half hour or part half hour spent |
| Considering an application for approval of a single bovine embryo collection or production team where there is inspection of one laboratory | 131 |
| Considering an application for approval of each additional laboratory or store from the same applicant where that laboratory or store is located more than 8 kilometres away from other embryo teams inspected for approval | 86 |
| Considering an application for approval of an additional laboratory or store from the same applicant when the inspection is done on the same day and the laboratory or store is located 8 kilometres or less from other embryo teams inspected for approval | 27 |
| Considering an application for approval of:<br>— a bovine embryo transfer team; or<br>— a store under regulation 13;<br>— a store under regulation 16; or<br>— a store and its supervisor under regulations 16 and 19, of the 1995 Regulations | 60 |

| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£)* |
|---|---|
| Ystyried cais am ailgymeradwyo labordy neu storfa yn dilyn unrhyw newidiadau | 71 |
| Cynnal archwiliad rheolaidd o gofnodion un tîm cynhyrchu, casglu neu drosglwyddo embryonau buchol ac ailarchwilio un labordy neu storfa | 70 |
| Cynnal archwiliad rheolaidd o gofnodion pob tîm cynhyrchu, casglu neu drosglwyddo embryonau buchol ychwanegol ac ailarchwilio pob labordy neu storfa ychwanegol | 41 am bob tîm a labordy neu storfa ychwanegol |
| Ystyried cais am gymeradwyo tîm casglu neu gynhyrchu embryonau buchol, heb archwilio labordy | 168 |

| *Column 1*<br>*Activity* | *Column 2*<br>*Fee (£)* |
|---|---|
| Considering an application for re-approval of a laboratory or a store following any alterations | 71 |
| Carrying out routine inspection of records of a single bovine embryo production, collection or transfer team and re-inspection of a single laboratory or store | 70 |
| Carrying out routine inspection of records of each additional bovine embryo production, collection or transfer team, and re-inspection of each additional laboratory or store | 41 for each additional team and laboratory or store |
| Considering an application for approval of a bovine embryo collection or production team with no inspection of a laboratory | 168 |

## ATODLEN 6

Rheoliad 10

# Gwirio llwythi o anifeiliaid byw o drydydd gwledydd mewn arolygfeydd ffin: ffioedd

| **Ffioedd am archwilio llwythi o anifeiliaid o drydydd gwledydd a gwirio dogfennau mewnforio mewn arolygfeydd ffin yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011** | |
|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Archwilio math o anifail a gwirio dogfennau* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£) am bob llwyth* |
| Dofednod, ratidau ac adar hela bach | 44 |
| Pysgod byw, anifeiliaid dyfrol ac ymlusgiaid | 40 |
| Cwningod a chnofilod | 44 |
| Adar caeth | 44 |
| Gwenyn, pryfed eraill ac infertebratau | 40 |
| Anifeiliaid anwes digwmni | 44 |
| Equidae | 54 |
| Da byw a ffermir, gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr, camelidau, moch a baeddod gwyllt | 54 |
| Anifeiliaid nas cynhwysir mewn unrhyw gategori arall | 44 |
| Gwirio dogfennau ar gyfer trawslwytho | 44 |

## SCHEDULE 6

Regulation 10

# Checking consignments of live animals from third countries at border inspection posts: fees

| **Fees for inspecting consignments of animals from third countries and checking importation documentation at border inspection posts in accordance with regulation 15 of the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011** | |
|---|---|
| *Column 1*<br>*Inspection of type of animal and checking documents* | *Column 2*<br>*Fee (£) per consignment* |
| Poultry, ratites and small game birds | 44 |
| Live fish, aquatic animals and reptiles | 40 |
| Rabbits and rodents | 44 |
| Captive birds | 44 |
| Bees, other insects and invertebrates | 40 |
| Pets unaccompanied | 44 |
| Equidae | 54 |
| Farmed livestock including cattle, sheep, goats, camelids, pigs and wild boar | 54 |
| Animals not covered by any other category | 44 |
| Transhipment check of documents | 44 |

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1241 (Cy. 133)

## BWYD, CYMRU

Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 1241 (W. 133)

## FOOD, WALES

The Addition of Vitamins, Minerals and Other Substances (Wales) Regulations 2007

£5.75

W1606/00/13 ON

ISBN 978-0-348-10758-6

9 780348 107586